**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Gillian Baranski

Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru

20 Rhagfyr 2023

**Gwaith craffu blynyddol**

Annwyl Gillian

Fel y gwyddoch efallai, byddwn yn craffu'n flynyddol ar waith cyfres o gyrff cyhoeddus y mae eu gwaith yn uniongyrchol berthnasol i'n cylch gwaith ni (Estyn, Cymwysterau Cymru, a Chomisiynydd Plant Cymru). Mae'r gwaith craffu fel arfer yn cynnwys un sesiwn dystiolaeth bob blwyddyn ar ôl i'r corff cyhoeddus dan sylw gyhoeddi ei adroddiad blynyddol. Mae'r sesiynau craffu blynyddol hyn yn gyfle i drafod gwaith y cyrff cyhoeddus yn fanwl ac ystyried unrhyw faterion corfforaethol ac ariannol a amlinellir yn eu hadroddiadau blynyddol.

Wrth gynnal ein hymchwiliad i ddiwygiadau radical i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, daeth i'r amlwg fod gan Arolygiaeth Gofal Cymru ran hanfodol yn y gwaith o oruchwylio adrannau gwasanaethau plant awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant cofrestredig eraill, a sbarduno newidiadau er gwell yn y maes hwn. Er i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023, mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau. Rydym yn parhau i bryderu am brofiadau llawer o blant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system ofal, a gallu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gyflwyno'r diwygiadau gwirioneddol radical y credwn sydd eu hangen ar y system ofal. Rydym hefyd yn ymwybodol o rôl allweddol Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar, sydd hefyd yn rhan o'n cylch gwaith.

Gan hynny, hoffem ychwanegu'r gwaith o graffu ar Arolygiaeth Gofal Cymru, o ran ei rôl fel rheolydd annibynnol ac arolygydd gofal cymdeithasol plant a gofal plant, at ein gwaith craffu blynyddol cylchol. Rydym yn cynnig cynnal y sesiwn gyntaf fore dydd Mercher 20 Mawrth 2024, a byddai'n cynnwys:

- perfformiad gwasanaethau plant awdurdodau lleol,
- eich adolygiad cyflym diweddar o drefniadau amddiffyn plant;

- y defnydd o lety anghofrestredig ar gyfer plant mewn gofal;
- cartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb eu cofrestru;
- Gorchmynion Amddifadu o Ryddid;
- plant a phobl ifanc y cam-fanteisir arnynt at ddibenion troseddol;
- plant ar goll
- materion gweithlu; a
- materion eraill sy'n berthnasol i'ch Adroddiad Blynyddol 2022-23.

Byddai sesiynau yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn fuan ar ôl cyhoeddi eich adroddiad blynyddol (hy yn ystod tymhorau'r hydref/gwanwyn).

Gobeithio'n arw eich bod yn barod i dderbyn cais hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor yn gyntaf (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Gan fod y materion y byddwn yn eu trafod yn ystod y sesiynau craffu arfaethedig o ddiddordeb hefyd i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, byddaf hefyd yn gwahodd aelodau o'r Pwyllgor hwnnw i fod yn bresennol. Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw er gwybodaeth iddo.

Yn gywir



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.